***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2186 (Cy. 150 )

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *12 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(3) a (4) ac adran 11(1) a (3) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000(**1**) ac adran 1(1)(b)(ii) o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 2000 p.16. Cyfeirir at adran 11(1) ar gyfer y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) 1996 p.30. Cyfnewidiwyd paragraff (b) o adran 1(1) o'r Ddeddf hon gan adran 5(b) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (p.16) , a fewnosododd is-baragraffau (i) a (ii). Mae pŵ er yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1(1)(b)(ii) o Ddeddf 1996 i wneud rheoliadau wedi freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymu ynrhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymu (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.